

## Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe



# SCEES

SWANSEA COMMUNITY ENERGY & ENTERPRISE SCHEME



**Fath o Brosiect:** Solar

**Lleoliad:** Abertawe

**Nod:** Defnyddio Ynni Solar eiddo'r gymuned i helpu atgynhyrchu ardaloedd difreintiedig

### Crynodeb o'r prosiect:

Datblygwyd Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe gyda'r nod o ddefnyddio ynni solar sy'n eiddo i'r gymuned i helpu i adfywio wardiau difreintiedig yn y ddinas. Caiff ei reoli'n annibynnol bellach, ac mae wedi sefydlu deg system ffotofoltäig solar ar adeiladau cymunedol sydd yn eiddo bobl lleol drwy fenter gymdeithasol newydd. Caiff elw o'r cynllun ei ddefnyddio i gynorthwyo prosiectau lleol a fydd yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau, mentergarwch, twf economaidd a chreu swyddi.

### Partneriaid:

**Dinas a Sir Abertawe:** Dechrau'r prosiect ac arwain y gwaith o'i ddatblygu, cynorthwyo â'r gwaith o sefydlu Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe fel menter gymdeithasol annibynnol datblygu'r cynllun a darparu cymorth swyddog drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r prosiect

**Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe:** Cymdeithas Budd Cymunedol annibynnol, cofrestredig sydd wedi recriwtio bwrdd o gyfarwyddwyr lleol, cryf, profiadol ac ymrwymedig, gan gynnwys cyflogeion y cyngor, aelod cabinet, gweithwyr ynni adnewyddadwy proffesiynol, ymgyrchwyr amgylcheddol lleol ac aelodau o'r gymuned.

**Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru:** Darparodd gwasanaeth ynni adnewyddadwy cymunedol Llywodraeth Cymru gymorth drwy ei Swyddog Datblygu Lleol ac arian grant i dalu am arolygon strwythurol a gwaith cyfreithiol cychwynnol

**Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a Pure Leapfrog:** Cynnal gwaith dichonoldeb ar gyfer yr awdurdod lleol a gwerthuso amrywiaeth o wahanol fodolau busnes ar gyfer y prosiect i helpu i nodi'r ffordd orau i'r Cyngor gynorthwyo prosiect solar dan arweiniad y gymuned yn y ddinas

**Robert Owen Community Banking:** Darparu cyllid drwy fenthyciad pontio ar gyfer y gwaith gosod, gwaith cyfreithiol a chynnig cyfranddaliadau

## Beth oedd y canlyniad?

Gosodwyd cyfanswm o 360kW o baneli solar ffotofoltäig ar naw ysgol ac un cartref gofal yn ardaloedd a chyffiniau Townhill a Phenderi yn Abertawe. Lansiodd cynnig cyfranddaliadau cymunedol ym mis Tachwedd 2016 i alluogi pobl leol i fuddsoddi yn y cynllun.

Rhagwelir y bydd y Gronfa Budd Cymunedol o'r prosiect yn creu £500,000 dros oes y prosiect er mwyn cynorthwyo prosiectau ynni adnewyddadwy a phrosiectau menter yn y gymuned leol.

## Beth a ddysgwyd?

### **Mae prosiect Cynllun Ynni a Menter Gymunedol Abertawe yn dangos sut y gall awdurdod lleol llawn cymhelliant gynorthwyo a'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy cymunedol.**

Archwiliodd y broses ddatblygu amrywiaeth o fodolau gwahanol ar gyfer partneriaeth gymunedol / awdurdod lleol cyn dewis model lle mae'r awdurdod yn meithrin proses ddatblygu menter gymdeithasol annibynnol sy'n eiddo i bobl leol. Gyda sail dystiolaeth gref, llwyddodd yr awdurdod lleol i weithredu'n gyflym ac yn bendant yn erbyn amserlenni heriol iawn er mwyn cofrestru ymlaen llaw ar gyfer y cyfraddau Tariff Cyflenwi Trydan uwch a chwblhau'r gwaith datblygu a oedd yn weddill i osod y paneli o fewn y terfyn amser a oedd yn gysylltiedig â chyfraddau Tariff Cyflenwi Trydan. Yn sgil y cymorth sylweddol a gafwyd gan yr awdurdod lleol, llwyddodd y prosiect i sicrhau incwm a fydd yn sicrhau lefelau llawer uwch o elw ar fuddsoddiad a budd cymunedol na'r hyn a fyddai wedi'i gyflawni fel arall.

### **Mae angen rheoli amserlenni**

Oherwydd yr amserlenni tyn, nai chafodd Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe ddigon o amser i gwblhau cynnig cyfranddaliadau cyn gosod y paneli ffotofoltäig ac felly roedd angen cyllid pontio. Bu'r grŵp yn trafod cyllid gyda nifer o fenthycwyr er mwyn gwneud yn siŵr y gellid sicrhau'r cyllid o fewn yr amserlenni gofynnol. Sicrhawyd cyllid yn llwyddiannus ac fe'i darparwyd gan Robert Owen Community Banking.

### **Mae angen i'r broses caffael cael cymorth arbenigol**

Roedd y broses gaffael yn un hir a manwl ac roedd angen i aelod penodedig o'r sefydliad fod ar gael er mwyn darparu ymatebion clir a gofalus i'r ymholiadau a godwyd. Gallodd Gymdeithas Ynni a Menter Cymunedol Abertawe ddarparu hyn drwy'r cymorth swyddog a ddarparwyd gan Ddinas a Sir Abertawe.

### **Ymgysylltu â'r cyhoedd yn bwysig**

Cyn sefydlu'r Gymdeithas Budd Cymunedol, cynhaliodd yr awdurdod lleol sawl digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cyflwyno'r prosiect i randdeiliaid lleol, cwrdd â chyfarwyddwyr posibl a helpu i lywio amcanion y sefydliad. Mynychodd y rhan fwyaf o aelodau presennol y bwrdd y digwyddiadau ymgysylltu ac felly roeddynt yn deall gwreiddiau'r sefydliad. Mae'r ystod o gefndiroedd sydd gan aelodau'r bwrdd wedi dod â hyder a dysg flaenorol i'r prosiect, gan eu cynorthwyo i fwrw ati'n syth fel yr oedd angen iddynt ei wneud.

### **Gall ynni adnewyddadwy cymunedol fod yn hygyrch i unrhyw un**

Dangosodd Gymdeithas Ynni a Menter Cymunedol Abertawe y gall ynni adnewyddadwy fod yn hygyrch i bawb ac y gall ddod â buddiannau gwirioneddol i gymunedau difreintiedig. Mae wedi llwyddo i feithrin partneriaeth gref yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sectorau preifat.

## Cymorth gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru:

Oherwydd oedi a oedd yn gysylltiedig â phroses cyn cofrestru Ofgem, cydnabu aelodau sylfaen y grŵp a gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru ar ddechrau 2016 y byddai'n rhaid i'r grŵp gyflawni llawer mewn amser byr er mwyn sicrhau y byddai'n elwa ar y cyfraddau Tariff Cyflenwi Trydan uwch yr oedd yr aelodau sylfaen wedi llwyddo i'w sicrhau.

Fel y cyfryw, darparodd gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru gymorth ychwanegol i'r sefydliad gyda'r Swyddog Datblygu yn cynorthwyo â'r gwaith o recriwtio aelodau'r bwrdd, casglu ac adolygu gwybodaeth dechnegol, ymgysylltu â chyrrff cyllido cyfalaf a darparu cymorth cyffredinol. Llwyddodd y grŵp i benodi aelodau bwrdd a weithiodd yn hynod o galed i wireddu'r prosiect.

Darparodd gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru hefyd arian grant gwerth £26,286 i'r grŵp ar gyfer gwaith cyfreithiol ac arolwg strwythurol cychwynnol.

## Gwybodaeth am Ynni Lleol

Mae'r gwasanaeth Ynni Lleol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol drwy gymorth swyddog datblygu, grantiau a benthyciadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn <http://localenergy.gov.wales>

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect yn: <http://www.swanseacommunityenergy.org.uk/>

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Paul Smith

Rheolwr y Rhaglen Ynni Lleol

ffôn: 029 2046 8345

e-bost: [paul.smith@est.org.uk](mailto:paul.smith@est.org.uk)



**Ynni** | **Local**  
**Lleol** | **Energy**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government